# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## BTEC  Tystysgrif Estynedig Gyntaf mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol Lefel 2



**Yn gryno**

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwyddoniaeth, dyma'r cwrs i chi. Mae'r cwrs Lefel 2 mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol yn ymdrin â'r tair gwyddor, gan roi gwybodaeth wyddonol arloesol a chyfredol i chi. Bydd yn eich cyflwyno i weithio yn y sector neu eich paratoi tuag at astudiaethau pellach.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

...Oes gennych chi ddiddordeb mewn gwyddoniaeth

...Rydych eisiau datblygu dealltwriaeth bellach

...Rydych eisiau arddull dysgu ymarferol

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae'r cwrs hwn yn ymwneud â gwyddoniaeth yn y gweithle, swydd y technegydd neu ymchwilydd gwyddonol. Byddwch yn astudio wyth uned orfodol, a bydd dwy o'r rheiny yn cynnwys arholiadau:

Egwyddorion gwyddoniaeth (yn cael ei arholi)
Cemeg a'r ddaear
Egni a'r bydysawd
Bioleg a'r amgylchedd
Cymhwyso sylweddau cemegol
Cymhwyso'r gwyddorau ffisegol
Cymhwyso iechyd mewn gwyddoniaeth
Sgiliau gwyddonol (yn cael ei arholi)

Mae'r cyfuniad yma yn sicrhau eich bod yn ymdrin â phwyntiau allweddol mewn bioleg, cemeg a ffiseg, ynghyd â dealltwriaeth o fyd gwaith galwedigaethau sy'n ymwneud â gwyddoniaeth.

Mae'r cysyniadau allweddol hyn yn ddatblygiad pellach yn yr unedau arbenigol dewisol ac yn drosglwyddadwy i sectorau cyflogedig fel iechyd, gwyddor chwaraeon, gwyddor fforensig a'r diwydiant maetheg. Mae'r unedau hyn yn cynnwys:

Y corff byw
Ymchwilio safle trosedd
Canfod a dadansoddi cemegol
Archwilio ein bydysawd

Ar gyfer cyrsiau lefel uwch, mae hefyd disgwyl ichi ail sefyll TGAU Gwyddoniaeth, Mathemateg a Saesneg os nad oes gennych radd C yn barod.

Byddwch yn cyflawni'r cymwysterau canlynol:

Gwyddoniaeth Gymhwysol Lefel 2

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg
Cymwysterau priodol eraill i wella eich sgiliau

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gofrestru, byddwch angen o leiaf 4 TGAU gradd D neu uwch, yn cynnwys pwnc gwyddonol a

naill ai Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg.

Mae angen ichi fod â diddordeb brwd mewn gwyddoniaeth a'r brwdfrydedd a'r ysfa i ddatblygu eich sgiliau ymarferol a dadansoddol, ac ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch. Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol. Mae dangos parch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a hunan gymhelliant yn nodweddion hanfodol rydym yn disgwyl eu gweld ym mhob un o'n dysgwyr. Mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hunain.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Diploma Estynedig BTEC mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol (Lefel 3) neu mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu Astudiaethau Iechyd (Lefel 3).

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae'r holl gostau'n cael eu hadolygu a gallant newid.